Defnyddio offer

Nod y cardiau adnoddau hyn yw cefnogi addysgu, mewn modd cyson, sut i drafod a defnyddio offer yn ddiogel ar gyfer gweithgareddau garddio a gwaith coed.

Canllawiau arfer gorau cyffredinol wrth ddefnyddio offer

- Dylid datblygu dadansoddiad o'r risgiau a'r manteision, a chyfathrebu'r mesurau rheoli i bawb sy'n bresennol.
- Mae'n ofynnol defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) pan fyddwch yn defnyddio offer. Rydym yn argymell defnyddio maneg ddiogelwch o'r maint priodol ar y llaw nad yw'n defnyddio'r offeryn, gwisgo esgidiau cadarn, neu esgidiau blaen dur (os ydych yn defnyddio offer sy'n symud yn ôl ac ymlaen), a het galed os oes angen.
  Os ydych yn gweithio mewn mannau lle mae'r llystyfiant yn ddwys, mae'n bosib bydd angen dillad llachar arnoch.
- Rhaid goruchwylio'r defnydd o offer yn ddigonol. Rhaid i arweinydd y grŵp asesu sawl oedolyn sydd eu hangen am bob dysgwr a'r peryglon cysylltiedig, gan ystyried gallu/aeddfedrwydd y dysgwyr sy'n bresennol, y gweithgareddau a wneir, a'r offer sydd eu hangen.
- Dylid cadw offer mewn man dynodedig. Dylid gwirio'r man offer hwn am unrhyw beryglon a allai achosi problemau cyn ei ddefnyddio.
- Dylid cadw offer mewn cyflwr da a gwirio eu bod yn ddiogel pob tro cyn eu defnyddio. Dylai llafnau fod yn finiog.
- Dylid cadw offer mewn bag offer neu rywbeth tebyg a'u dwyn i'r man offer gan arweinydd y grŵp ar gyfer gweithgareddau dan oruchwyliaeth. Gan ddibynnu ar allu/aeddfedrwydd y grŵp, nid yw tryweli nac offer garddio eraill yn rhan o'r rheol hon a gellir sicrhau eu bod ar gael i'w defnyddio ar unrhyw adeg.
- Dylid cyfrif offer i mewn ac allan cyn ac ar ôl eu defnyddio.
- Pan fydd dysgwr wedi gorffen defnyddio offeryn, dylid ei ddychwelyd i'r bag offer. Dylech bob amser roi offer i gadw ar ôl eu defnyddio.
- Rhaid dweud wrth ddysgwyr am beidio byth â rhedeg gydag offer. Rhaid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'r ffordd ddiogel i gario a phasio offer, h.y. eu cario i lawr wrth eich ochr pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio.
- Dylid defnyddio offer o fewn 'swigen ddiogelwch'. Mae swigen ddiogelwch yn golygu bod y dysgwr yn gallu ymestyn ei ddwy fraich a'u symud i bob cyfeiriad wrth aros yn ei unfan – dyma ei swigen ddiogelwch. Ni ddylai unrhyw ddysgwr arall allu cyrraedd y tu mewn i'r gofod hwnnw tra ei fod yn defnyddio offeryn. Os bydd dau ddysgwr yn eistedd wrth ymyl ei gilydd, ni ddylent allu cyffwrdd â'i gilydd gyda'u dwylo wedi'u hymestyn os ydyn nhw'n defnyddio'r rheol swigen ddiogelwch yn gywir.
- Cyn defnyddio'r offer, dylai arweinydd y grŵp ddefnyddio'r Cardiau adnoddau – Defnyddio offer er mwyn i ddysgwyr ymgyfarwyddo â defnyddio offer yn ddiogel trwy ddefnyddio'r acronym **EAGTCPDGC**, sef: **E Enw**'r offeryn; **A Anodi** rhannau'r offer unigol gan dynnu sylw at y rhannau mwy peryglus; sut mae **G Gwirio** bod yr offeryn yn ddiogel cyn ei ddefnyddio; sut mae **T Trafod** yr offeryn yn enwedig wrth ei drosglwyddo i berson arall; os oes angen **C Cyfarpar Diogelu Personol** wrth ddefnyddio'r offeryn; **P Pwrpas** a defnydd yr offeryn; sut i'w **D Defnyddio**; yr hyn i'w wneud gyda nhw ar ôl **G Gorffen** defnyddio nhw; yr hyn i'w wneud er mwyn **C Cynnal** yr offeryn dros amser i sicrhau defnydd cynaliadwy.

Rhwydwaith Hyfforddiant Dysgu yn yr Agored Cymru
Outdoor Learning Training Network Wales

Tocwyr

E Enw	Tocwyr.
A Anodi	Coesau (gafaelion), colfach, nyten y colyn, min (siswrn neu eingion).
G Gwirio	Nad yw'r gafaelion wedi'u difrodi nac yn llac. Bod y min yn lân ac yn agor a chau. Bod y colfach yn gweithio'n esmwyth. Os oes rhai, bod y coesau ymestynnol yn gweithio'n esmwyth ac yn ddiogel.
T Trafod	Dylech eu cario i lawr wrth eich ochr gyda'ch llaw ar ran isaf y coes. Sicrhewch fod y min torri ar gau. Pan fyddwch yn eu pasio i berson arall, pasiwch y coes yn gyntaf.
C CDP	Menig. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau gweithio. Het galed. Dillad llachar.
P Pwrpas	Fe'u defnyddir i dorri priciau a changhennau hyd at ddiamedr o tua 4cm.
D Defnydd	Sicrhewch fod gennych ardal glir i weithio ynddi, gyda neb yn agos atoch. Os ydych yn torri uwch eich pen, gwisgwch het galed. Defnyddiwch hyd y coesau i gael y trosoledd mwyaf. Daliwch y gafaelion. Sicrhewch nad yw eich dwylo'n agos i'r canghennau rydych yn eu torri. Tocwyr eingion – llafn sengl sy'n cau ar sylfaen wastad, a ddefnyddir ar gyfer pren sych. Tocwyr siswrn – dau lafn sy'n llithro heibio ei gilydd fel siswrn, a ddefnyddir ar gyfer pren gwyrdd.
G Gorffen	Glanhewch y min ar ôl eu defnyddio. Caewch y min. Storiwch mewn bag offer.
C Cynnal	O bryd i'w gilydd golchwch a glanhewch y nodd oddi ar y llafn. Cadwch y llafn yn finiog trwy ei hogi â charreg hogi wlyb neu sych. Sychwch gyda lliain olewog.

Bilwg

E Enw	Bilwg.
A Anodi	Carn, min.
G Gwirio	Sicrhewch fod y carn a'r min yn ddiogel. Dylai'r llafn fod yn finiog.
T Trafod	Dylech ei gario wrth eich ochr gyda'r min yn wynebu tua'r cefn. Pan fyddwch yn ei basio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Maneg ar y llaw nad yw'n gwneud y gwaith. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau blaen dur. Dillad llachar.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i hollti boncyffion a phren gwyrdd, stripio canghennau, tocio gwrychoedd, prysgoedio, clirio.
D Defnydd	Sicrhewch fod gennych ardal glir i weithio ynddi, gyda neb yn agos atoch. Dylech bob amser symud y llafn i ffwrdd o'r corff. Hollti boncyffion – gosodwch y boncyff yn sownd ar arwyneb gwastad. Gosodwch yr offeryn ar ben boncyff bach a'i daro gyda gordd bren. Stripio – gan sefyll yn gadarn, daliwch y gangen yn sownd, h.y., o dan y fraich a symudwch yr offeryn ar hyd y gangen.
G Gorffen	Glanhewch y min ar ôl ei ddefnyddio. Rhowch glawr ar y llafn a'i storio mewn bag offer.
C Cynnal	O bryd i'w gilydd golchwch a glanhewch y nodd oddi ar y llafn. Cadwch y llafn yn finiog trwy ei hogi â charreg hogi wlyb neu sych. Sychwch gyda lliain olewog.

Llif fwa

E Enw	Llif fwa.
A Anodi	Carn, llafn, gard y llafn.
G Gwirio	Sicrhewch fod y llafn yn ddiogel ac yn finiog. Dylech amnewid llafn di-fin cyn ei defnyddio.
T Trafod	Dylech ei chario wrth eich ochr gyda'r llafn yn wynebu'r llawr. Sicrhewch fod gard y llafn yn ei le. Pan fyddwch yn ei phasio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Maneg ar y llaw nad yw'n gwneud y gwaith. Maneg dynn ar y llaw sy'n gwneud y gwaith os oes angen. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau gweithio.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir ar gyfer prysgoedio, cwympo coed bach a thorri pren, canghennau a boncyffion gwyrdd a marw.
D Defnydd	Gosodwch y pren yn sownd ar arwyneb gwastad, trwy ddefnyddio clamp, carntro, neu law mewn maneg, neu defnyddiwch geffyl llif i ddal y pren. Rhowch y llafn ar y pren a'r llaw rydd trwy'r llif a phwyswch ar y pren. Tynnwch y llafn yn ôl dair gwaith nes ffurfio rhigol. Wedyn tynnwch a gwthiwch y llif yn ôl ac ymlaen. Gallwch ddefnyddio dau berson i wneud hyn. Pan fyddwch yn prysgoedio, rhowch y llafn ar waelod cangen y goeden a chan gadw'r gangen yn sownd, tynnwch y llafn yn ôl ac ymlaen nes ffurfio rhigol.
G Gorffen	Glanhewch y llafn. Rhowch gard y llafn yn ôl yn ei le. Storiwch y llif mewn bag offer.
C Cynnal	Pan fydd y llafn yn pylu, rhowch un newydd yn ei le. Newidiwch gardiau llafnau sydd wedi'u difrodi neu eu colli. Sychwch gyda lliain olewog.

Cyllell boced, cyllell wain, cyllell gloi/nad yw'n cloi

E Enw	Cyllell boced, cyllell wain, cyllell gloi/nad yw'n cloi.
A Anodi	Carn, llafn, gwain, colfach, a chlo (os yw'n gyllell gloi neu'n gyllell boced).
G Gwirio	Bod y colfach yn symud yn rhwydd. Bod y ddyfais i'w chloi yn gweithio'n iawn. Bod y llafn yn finiog ac yn ddiogel i'w drafod.
T Trafod	Caewch, clowch neu rhowch y llafn yn y wain pan nad ydych yn ei defnyddio. Pan fyddwch yn ei phasio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Maneg ar y llaw nad yw'n gwneud y gwaith. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau gweithio.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i dorri, tynnu rhisgl, siapio, cerfio, hollti boncyffion llai ac ar gyfer gwaith celf.
D Defnydd	Dylech eistedd neu sefyll yn gadarn. Gwiriwch fod gennych ddigon o le i allu gweithio'n ddiogel. Clowch y penelinoedd i mewn i'r corff. Rhowch y darn o bren o dan y fraich wrth ochr y corff. Cerfiwch gyda'r llafn yn symud i ffwrdd oddi wrthych.
G Gorffen	Glanhewch y llafn. Sicrhewch fod y llafn yn ddiogel. Storiwch mewn bag offer.
C Cynnal	O bryd i'w gilydd golchwch a glanhewch y nodd oddi ar y llafn. Sychwch gyda lliain olewog. Cadwch y llafn yn finiog trwy ei hogi â charreg hogi wlyb neu sych. O bryd i'w gilydd rhowch olew ar y colfach/clo. Newidiwch y wain pan fydd wedi'i thorri neu pan fydd ôl traul arni.

Siswrn tocio

E Enw	Siswrn tocio.
A Anodi	Coesau (gafaelion), colfach, nyten colyn, min (siswrn neu eingion), sbring, mecanwaith diogelu/clo.
G Gwirio	Bod y gafaelion yn sownd. Bod y colfach yn sownd. Bod y min yn finiog. Bod y colfach yn rhydd i agor a chau. Bod y mecanwaith diogelu yn gweithio'n rhwydd.
T Trafod	Sicrhewch fod y min ar gau pan fyddwch yn eu cario. Dylech eu cario wrth eich ochr gerfydd eu coesau. Pan fyddwch yn eu pasio i berson arall, pasiwch y coes yn gyntaf.
C CDP	Maneg ar y llaw nad yw'n gwneud y gwaith. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau gweithio.
P Pwrpas	Torri canghennau llai hyd at ddiamedr o tua 2cm.
D Defnydd	Gwiriwch fod gennych ddigon o le o'ch cwmpas i weithio'n ddiogel. Gosodwch y pren mor agos â phosibl i'r colfach i gael y trosoledd mwyaf. Torrwch ganghennau llai gydag un llaw ar goesau'r siswrn, a'r llaw arall yn dal y gangen rydych yn ei thorri. Peidiwch â thorri canghennau sydd bron y tu hwnt i'ch cyrraedd neu sy'n rhy uchel. Siswrn tocio eingion – llafn sengl sy'n cau ar sylfaen wastad, fe'u defnyddir ar gyfer pren sych. Siswrn tocio steil siswrn – dau lafn sy'n llithro heibio ei gilydd fel siswrn, fe'u defnyddir ar gyfer pren gwyrdd.
G Gorffen	Glanhewch y min. Caewch y min a chlowch yr offeryn. Storiwch mewn bag offer.
C Cynnal	O bryd i'w gilydd golchwch a glanhewch y nodd oddi ar y llafn. Cadwch y llafn yn finiog trwy ei hogi â charreg hogi wlyb neu sych. Sychwch gyda lliain olewog.

Pliciwr tatws

E Enw	Pliciwr tatws.
A Anodi	Carn, min.
G Gwirio	Bod y carn a'r min yn ddiogel.
T Trafod	Dylech ei gario wrth eich ochr, gyda'r min yn wynebu'r llawr. Pan fyddwch yn ei basio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Maneg ar y llaw nad yw'n gwneud y gwaith. Esgidiau gweithio.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i lanhau ac i dynnu rhisgl, i roi min ar briciau coginio tân gwersylla.
D Defnydd	Dylech eistedd neu sefyll mewn safle diogel. Gwiriwch fod gennych ddigon o le i allu gweithio'n ddiogel. Clowch y penelinoedd i mewn i'r corff. Rhowch y darn o bren o dan y fraich wrth ochr y corff. Cerfiwch gyda'r llafn yn symud i ffwrdd oddi wrthych.
G Gorffen	Glanhewch y min. Storiwch mewn bag neu flwch offer
C Cynnal	O bryd i'w gilydd golchwch a glanhewch y nodd oddi ar y llafn. Sychwch gyda lliain olewog. Newidiwch y llafn ar ôl iddo bylu.

Haclif fach

E Enw	Haclif fach.
A Anodi	Carn, llafn.
G Gwirio	Bod y carn yn sownd. Bod y llafn yn sownd ac yn finiog. Newidiwch lafnau sydd wedi pylu cyn eu defnyddio.
T Trafod	Dylech ei chario wedi'i lapio neu mewn bag offer bach. Pan fyddwch yn ei phasio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Maneg ar y llaw nad yw'n gwneud y gwaith. Maneg dynn ar y llaw sy'n gwneud y gwaith os oes angen. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau gweithio.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i dorri priciau llai ac ar gyfer torri'n fwy manwl gywir i roi gorffeniad mwy destlus.
D Defnydd	Gosodwch y pren yn sownd ar arwyneb gwastad, trwy ddefnyddio clamp, carntro, neu law mewn maneg. Rhowch y llafn ar y pren a defnyddiwch eich llaw rydd i ddal y pren mewn lle. Tynnwch y llafn yn ôl ac ymlaen yn araf nes ffurfio rhigol.
G Gorffen	Glanhewch y min a storiwch mewn bag offer bach.
C Cynnal	Gwiriwch yn rheolaidd fod y llafn a'r carn yn sownd. Sychwch gyda lliain olewog.

Trywel

E Enw	Trywel.
A Anodi	Carn, llafn.
G Gwirio	Bod y carn yn sownd. Bod y llafn yn sownd.
T Trafod	Dylech ei gario wedi'i lapio neu mewn bag offer bach. Pan fyddwch yn ei basio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Menig garddio. Esgidiau gweithio.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i balu tyllau bach, clirio chwyn, a chrafu i ffwrdd haenau tenau o bridd.
D Defnydd	Rhowch flaen y llafn i mewn i'r pridd. Rhowch bwysau ar y carn. Pwyswch yn ôl ar y carn i godi'r pridd.
G Gorffen	Glanhewch y llafn. Storiwch mewn bag offer.
C Cynnal	Gwiriwch yn rheolaidd fod y llafn a'r carn yn sownd. Glanhewch y llafn a'r carn yn drylwyr, gan dynnu unrhyw rwd gyda brwsh gwifrau, gwlân dur mân a phapur tywod â graean canolig. Llyfnwch i ffwrdd o'ch corff, defnyddiwch ffeil dairongl er mwyn befelu ymyl y llafn i finiogi'r ymyl. Rhowch haen denau o olew ar bob rhan o'r trywel.

Rhaw

E Enw	Rhaw.
A Anodi	Carn, step, llafn, coes.
G Gwirio	Bod y carn yn sownd. Bod y llafn yn sownd.
T Trafod	Dylech ei chario gerfydd coes y carn wedi'i lapio neu mewn bag offer bach. Pan fyddwch yn ei phasio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Menig garddio. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau blaen dur.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i balu, gwneud tyllau a ffosydd ag ymylon syth, sleisio, codi tyweirch ac ymylu. Fe'i defnyddir hefyd ar gyfer chwynnu a phlannu.
D Defnydd	Rhowch ymyl y llafn i mewn i'r pridd, fel arfer ar ongl. Rhowch bwysau ar y carn a phwyswch ar y carn i godi'r pridd. Ar gyfer priddoedd caled, rhowch eich troed ar y step – yr ymyl ar dop y llafn – a gwasgwch i lawr yn gadarn, ynghyd â'r pwysau ar y carn.
G Gorffen	Glanhewch y llafn. Storiwch yn unionsyth i atal baglu drosti ac anafiadau eraill.
C Cynnal	Gwiriwch yn rheolaidd fod y llafn a'r carn yn sownd. Glanhewch y llafn a'r carn yn drylwyr, gan dynnu unrhyw rwd gyda brwsh gwifrau, gwlân dur mân a phapur tywod â graean canolig. Llyfnwch i ffwrdd o'ch corff, defnyddiwch ffeil dairongl er mwyn befelu ymyl y llafn i finiogi'r ymyl. Rhowch haen denau o olew ar bob rhan o'r rhaw.

Llif docio

E Enw	Llif docio.
A Anodi	Carn, llafn, colfach, clo.
G Gwirio	Bod y carn yn sownd. Bod y llafn yn sownd ac yn finiog. Dylai mecanwaith agor a chau llifiau tocio sy'n plygu weithio'n llyfn. Sicrhewch fod y clo'n gweithio'n ddiogel.
T Trafod	Dylech ei chario wedi'i phlygu. Pan fyddwch yn ei phasio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf neu gyda'r llif wedi'i phlygu.
C CDP	Maneg ar y llaw nad yw'n gwneud y gwaith. Maneg dynn ar y llaw sy'n gwneud y gwaith os oes angen. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau gweithio.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i docio neu dorri pren, llwyni a changhennau bach gwyrdd a marw, hyd at ddiamedr o tua 10cm, gan ddibynnu ar faint y llafn.
D Defnydd	Sicrhewch fod y pren yn sownd cyn dechrau llifio. Defnyddiwch ddull torri fesul cam (torri fesul sawl 'cam' yn hytrach na'r weithred un cam a welir mewn torri trwch llawn neu dorri sefydlog) ar gyfer pren byw sy'n sefyll. Daliwch y coesyn neu'r gangen yn gadarn gyda'r llaw nad yw'n gwneud y gwaith torri. Dechreuwch y toriad trwy osod dannedd llif y llafn ar ben y coesyn neu'r gangen a thynnu'r llafn yn araf tuag atoch. Crëwch rigol drwy wneud tri thoriad tuag yn ôl. Mae'r rhan fwyaf o lifiau tocio yn gweithio wrth i chi dynnu. Pan fydd y llafn yn eistedd yn gadarn, tynnwch y llafn yn araf yn ôl ac ymlaen dan reolaeth.
G Gorffen	Glanhewch y llafn yn ofalus. Os yw'n llif docio sy'n plygu, plygwch hi a'i gwneud yn ddiogel. Storiwch mewn bag offer.
C Cynnal	Gwiriwch yn rheolaidd fod y llafn a'r carn yn sownd. Rhowch olew ar y carn os nad yw'r llif yn plygu'n rhwydd. Sychwch gyda lliain olewog. Gwiriwch fod y llafn yn aros yn finiog a'i newid pan fo angen.

Dril cledr, gimbil, dril llaw, carntro llaw, taradr

E Enw	Dril cledr, gimbil, dril llaw, carntro llaw, taradr.
A Anodi	Carn, ebill y dril, crafanc (ar ddril llaw).
G Gwirio	Bod ebill y dril yn sownd yn y dril cledr. Bod y grafanc wedi'i thynhau ac yn dal ebill y dril yn sownd yn y dril llaw a bod y carn yn troi'n rhwydd.
T Trafod	Dylech ei gario wrth eich ochr gyda'r pwynt yn wynebu'r llawr, wedi'i lapio neu mewn bag offer bach. Pan fyddwch yn ei basio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Maneg ar y llaw nad yw'n dal yr offeryn. Trowsus hir. Esgidiau gweithio.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i wneud tyllau arwain a thyllau bach mewn pren meddal, concyrs a deunyddiau tebyg.
D Defnydd	Dril cledr – gosodwch y pren yn sownd ar arwyneb gwastad, trwy ddefnyddio clamp, carntro, neu law mewn maneg. Defnyddiwch eich llaw gryfaf i bwyso i lawr a throi'r dril cledr i gyfeiriad clocwedd nes i'r twll fod mor ddwfn ag sydd angen. Dril llaw – gosodwch y pren yn sownd ar arwyneb gwastad, trwy ddefnyddio clamp, carntro, neu law mewn maneg. Cadwch y dril llaw yn fertigol gyda phwynt y dril ar y pren. Mae un llaw yn dal y carn ar y top tra bod y llaw arall yn cylchdroi'r carn arall i gyfeiriad clocwedd. Defnyddiwch ychydig o bwysau. Trowch y dril i'w ryddhau.
G Gorffen	Defnyddiwch liain i gael gwared ar unrhyw flawd llif. Storiwch mewn bag offer gydag ebill y dril wedi'i orchuddio er diogelwch.
C Cynnal	Dril cledr – gwiriwch yn rheolaidd fod ebill y dril yn sownd ac yn finiog. Dril llaw – rhowch olew ar y carn i'w gynnal. Gwiriwch fod yr ebillion yn finiog. Os oes angen pwysau cryf, bydd yr ebill yn pylu. Sychwch gyda lliain olewog.

Bwyell

E Enw	Bwyell.
A Anodi	Carn, pen y fwyell, bôn pen y fwyell, min crwm, llygad y fwyell.
G Gwirio	Sicrhewch fod y carn yn sownd ym mhen y fwyell. Gwiriwch lygad y fwyell am unrhyw ddifrod.
T Trafod	Dylech ei chario mewn gwregys pwrpasol, neu drwy ddal y carn gyda phen y fwyell yn wynebu'r llawr, wrth eich ochr gyda gwain y llafn mewn lle. Pan fyddwch yn ei phasio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Menig. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau blaen dur. Dillad llachar.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i dorri, hollti a naddu pren.
D Defnydd	Dylech eistedd neu sefyll mewn safle diogel. Gwiriwch fod gennych ddigon o le i allu gweithio'n ddiogel. Gosodwch y pren yn sownd ar arwyneb gwastad, trwy ddefnyddio clamp, carntro, neu law mewn maneg. Pan fyddwch yn torri, sicrhewch eich bod i'r ochr i arc y llafn. Pan fyddwch yn naddu gyda bwyell, sicrhewch eich bod yn gwisgo maneg ar y llaw sy'n dal y pren a bod eich llaw y tu ôl i wyneb y pren sy'n cael ei naddu. Pan fyddwch yn hollti pren, rhowch ben y fwyell ar ddarn crwn y pren a'i tharo â gordd bren.
G Gorffen	Glanhewch lafn y fwyell ar ôl ei defnyddio; sicrhewch fod y pen yn sych cyn rhoi gwain y llafn yn ôl. Storiwch mewn bag offer.
C Cynnal	O bryd i'w gilydd golchwch a glanhewch y nodd oddi ar fin y fwyell. Sychwch gyda lliain olewog. Sicrhewch fod y befel yn finiog drwy ei hogi â charreg hogi wlyb neu sych. Dylech bob amser sychu'r fwyell yn drylwyr cyn ei storio.

Fforch (law, balu neu ardd)

E Enw	Fforch (law, balu neu ardd).
A Anodi	Carn, gafael, coes, amgarn, colsaid, soced, gefeiliau, neu ddannedd.
G Gwirio	Bod y carn a'r gafaelion yn sownd. Bod y dannedd yn sownd.
T Trafod	Dylech ei chario gerfydd coes y carn. Pan fyddwch yn ei phasio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Menig garddio. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau cadarn neu esgidiau blaen dur.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i balu, awyru'r pridd, a throi tyweirch. Hefyd ar gyfer chwynnu a phlannu.
D Defnydd	Gosodwch y dannedd i mewn i'r pridd, fel arfer ar ongl. Rhowch bwysau ar y carn a phwyswch ar y carn i dorri'r pridd. Ar gyfer clai neu briddoedd caled, rhowch eich troed ar ymyl top y fforch balu neu'r fforch ardd a gwasgwch i lawr yn gadarn, ynghyd â'r pwysau ar y carn.
G Gorffen	Glanhewch y dannedd. Storiwch hi yn unionsyth i atal baglu drosti ac anafiadau eraill.
C Cynnal	Gwiriwch yn rheolaidd fod y dannedd a'r carn yn sownd. Glanhewch y dannedd a'r carn yn drylwyr, gan dynnu unrhyw rwd gyda brwsh gwifrau, gwlân dur mân a phapur tywod â graean canolig. Rhowch haen denau o olew ar bob rhan o'r fforch.

Tyllwr

E Enw	Tyllwr.
A Anodi	Carn, coes.
G Gwirio	Bod y carn a'r goes yn sownd.
T Trafod	Dylech ei gario gerfydd coes y carn. Pan fyddwch yn ei basio i berson arall, pasiwch y carn yn gyntaf.
C CDP	Menig garddio. Trowsus hir (oferôls yn ddelfrydol). Esgidiau cadarn.
P Pwrpas	Fe'i defnyddir i greu tyllau ar gyfer plannu hadau ac eginblanhigion.
D Defnydd	Gosodwch flaen y goes ar y pridd. Pwyswch ar y carn a phwyswch i lawr yn syth i'r dyfnder gofynnol.
G Gorffen	Glanhewch y goes. Storiwch mewn bag offer bach.
C Cynnal	Gwiriwch yn rheolaidd fod y goes a'r carn yn sownd. Glanhewch y goes a'r carn yn drylwyr. Sychwch gyda lliain olewog.